**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**Y BIL TROSEDDU A PHLISMONA**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig*.*

2. Cyflwynwyd y Bil Troseddu a Phlismona ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin, Senedd y DU ar 25 Chwefror 2025. Gosodais LCM ar 28 Mawrth 2025.

3. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau ar 19 Mehefin yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Nid yw'r mwyafrif o'r gwelliannau yn rhoi sylw i faterion datganoledig, fodd bynnag, mae un ar ddeg o welliannau yn gwneud darpariaethau sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig, fel a nodir ym mharagraffau 12 i 19 isod.

4. Gellir cael copi o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod y Pwyllgor yn: Y Bil Troseddu a Phlismona

## Amcan(ion) y Polisi

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw:

- mynd i'r afael â'r epidemig o drais difrifol, cam-drin plant yn rhywiol a thrais yn erbyn menywod a merched sy'n fefl ar ein cymdeithas
- diogelu'r cyhoedd a chanol ein trefi rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddau manwerthu a dwyn o siopau
- rhoi i'r heddlu ac eraill y pwerau y mae arnynt eu hangen i frwydro yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu a therfysgaeth
- ailennyn hyder y cyhoedd mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach

## Crynodeb o'r Bil

6. Mae'r Bil yn cael ei noddi gan y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

7. Mae prif ddarpariaethau'r Bil yn cwmpasu:

a) Mynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol: cyflwyno gorchmynion parch, cyflwyno trosedd benodol o ymosod ar weithiwr manwerthu, cynyddu'r difrifoldeb a'r gosb i gymryd camau llymach ar gyfer dwyn gwerth isel o siopau a throseddau â chyllyll.

b) Rhoi mwy o bwerau i'r heddlu: ehangu'r pwerau i brofi cyffuriau adeg arestio, rhoi pwerau newydd ar gyfer mynediad, chwilio ac atafaelu, rhoi mwy o fynediad i'r heddlu i gronfa ddata DVLA, gwahardd ffermydd SIM a dyfeisiau electronig a ddefnyddir yn achos dwyn cerbydau.
c) Gwella hyder y cyhoedd mewn plismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach: rhoi'r hawl i brif swyddogion heddlu apelio yn erbyn canlyniad byrddau camymddygiad, rhoi'r hawl i swyddogion arfau tanio sy'n destun achos troseddol fod yn ddienw.
d) Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched: cryfhau rheoli troseddwyr a gwella'r gofynion hysbysu yn achos troseddwyr rhyw cofrestredig, rhoi'r hawl i ddioddefwyr stelcian wybod pwy yw'r troseddwr, cyflwyno trosedd newydd sef gweinyddu sylwedd niweidiol ('sbeicio').
e) Diogelu plant ac oedolion agored i niwed: cyflwyno dyletswydd newydd i roi gwybod am gam-drin plant yn rhywiol, creu troseddau newydd o gogio a chamfanteisio troseddol yn erbyn plant, cyflwyno troseddau newydd sy'n gysylltiedig â chymryd delweddau personol heb gydsyniad, gwneud ymddygiad meithrin perthynas amhriodol yn ffactor gwaethygu statudol.
f) Gwella pwerau gwrthderfysgaeth: cyflwyno gorchymyn dargyfeirio ieuenctid newydd, gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth terfysgaeth a argymhellir gan Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth.

**Ymgysylltu â Llywodraeth y DU**

8. Mae fy swyddogion wedi ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion yn y Swyddfa Gartref wrth i'r Bil ddatblygu.

9. Ysgrifennodd y Gweinidog Gwladol dros Blismona ac Atal Troseddu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ar 10 Mehefin 2025 yn amlinellu mesurau newydd a fyddai'n gymwys i Gymru.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) cyntaf**

10. Yn yr LCM cyntaf, nodais y byddai angen ymgysylltu pellach â Llywodraeth y DU o ran y dull a fabwysiedir mewn perthynas â'r darpariaethau yng nghymalau 127 – 129 – Cytundebau rhannu data mewn perthynas â gorfodi'r gyfraith ryngwladol (iLEAP). Yn dilyn ymgysylltu swyddogol, rwyf yn awr yn fodlon ar y dull ac yn gallu argymell bod y Senedd yn cefnogi'r darpariaethau hyn. Er bod hyn yn gwyro oddi wrth ein hegwyddor arferol o ran pwerau cydredol, rwy'n cydnabod cyfyngiadau'r pwerau yn eu cyd-destun, y gorgyffwrdd â materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl, a safbwyntiau dilys y DU o ran rhwymedigaethau rhyngwladol.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yn y Cyfnod Adrodd y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

- OPC192: Ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus tuag at weithwyr argyfwng;

- OPC194: Ymddygiad bygythiol neu ymosodol sy'n debygol o aflonyddu, codi braw neu achosi trallod i weithwyr argyfwng;
- OPC 195: Dehongli adrannau (Ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus tuag at weithwyr argyfwng) ac (Ymddygiad bygythiol neu ymosodol sy'n debygol o aflonyddu, codi braw neu achosi trallod i weithwyr argyfwng); a
- Cymal 112 o'r Bil (cymal 90 fel y'i cyflwynwyd) fel y'i diwygiwyd gan OPC180, OPC181, OPC182, OPC183, OPC184, OPC187, OPC225, OPC226: Cofebau.

11. Mae'r cymalau newydd hyn (OPC192, OPC194, OPC195) yn creu trosedd newydd mewn perthynas â gweithwyr argyfwng. Mae'n debyg i droseddau yn adran 31 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (troseddau ar sail hil neu grefydd o dan adrannau 4, 4A a 5 o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986), ond yn wahanol i'r troseddau hynny gellir ei chyflawni mewn anheddau.

12. O dan y gwelliannau arfaethedig, mae'r troseddau newydd yn cael eu creu sy'n ymwneud ag ymddygiad bygythiol, ymosodol neu sarhaus â chymhelliant hiliol neu grefyddol tuag at weithiwr argyfwng ac ymddygiad sy'n debygol o aflonyddu, codi braw neu achosi trallod i weithiwr argyfwng.

13. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn cynnwys darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r troseddau yn rhai sydd o fewn pŵer Senedd Cymru i'w gwneud gan eu bod yn droseddau neillffordd a diannod yn unig ac nid o fath a gedwir o dan baragraff 4, Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

14. Mae'r newidiadau i gymal 112 o'r Bil (cymal 90 fel y'i cyflwynwyd) ers gosod yr LCM yn ehangu neu o bosibl yn ehangu'r drosedd o ddringo ar gofeb ryfel i gofebau eraill. Mae'r gwelliannau yn dileu'r cyfeiriad at ryfel ('war') ac yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ychwanegu cofebau eraill at y rhestr o gofebau sydd wedi eu rhestru yn y Bil ar hyn o bryd. Nid yw'r drosedd wedi ei chyfyngu i gyd-destun protest ac mae'r amgylchedd hanesyddol yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

15. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen LCM ar gyfer y gwelliannau OPC 192, OPC 194 ac OPC 195.

16. Mae hi o'r farn nad oes angen LCM ar gyfer y gwelliannau OPC180, OPC181, OPC182, OPC183, OPC184, OPC187, OPC225 ac OPC226. Fodd bynnag, rwyf i o'r farn mai'r ddadl gryfaf yw bod y gwelliannau hyn yn rhoi sylw i faterion datganoledig, ac felly rwy'n gosod LCM atodol (SLCM) mewn perthynas â hwy.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn yn y Bil Troseddu a Phlismona**

17. Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan y DU gan eu bod yn ymdrin â materion datganoledig yn ogystal â materion a gedwir yn ôl ac mae ein cynnwys yn y ddeddfwriaeth hon gan y DU yn ei gwneud yn bosibl i amcanion polisi gael eu cyflawni yn y modd mwyaf effeithiol. Byddai'r darpariaethau newydd yn sicrhau bod gweithwyr argyfwng yng Nghymru yn cael yr un amddiffyniad â gweithwyr cyfatebol yn Lloegr. Mae'r ddarpariaeth hon yn cyd-fynd â'r weledigaeth i wneud Cymru yn wlad wrth-hiliol fel a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r nod llesiant ar gyfer Cymru sy'n wlad fwy cyfartal fel a roddwyd ar waith gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

18. Ni fyddai gweithwyr argyfwng a dargedir oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hunaniaeth drawsryweddol neu anabledd yn cael eu cwmpasu gan y newid hwn. Trwy ddarparu amddiffyniadau ar gyfer dim ond dau o'r pum llinyn yr ymdrinnir â hwy yn neddfau troseddau casineb y DU, dylid nodi bod y ddarpariaeth hon yn ehangu gwahaniaethau presennol, fel a adolygwyd ac a amlygwyd yn fanwl gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad 2021 ar gyfreithiau troseddau casineb.

19. Dylid nodi hefyd bod Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 hefyd yn cwmpasu ysgogi casineb ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Nid yw'n glir pam nad yw'r nodwedd warchodedig hon wedi'i chynnwys ochr yn ochr â hil a chrefydd.

**Goblygiadau ariannol**

20. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Bil hwn ar hyn o bryd.

**Casgliad**

21. Rwyf o'r farn ei bod yn briodol mynd i'r afael â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU. Mae'r darpariaethau newydd yn sicrhau bod gweithwyr argyfwng yng Nghymru yn cael yr un amddiffyniad â gweithwyr cyfatebol yn Lloegr. Mae'r ddarpariaeth hon yn cyd-fynd â'r weledigaeth i wneud Cymru yn wlad wrth-hiliol fel a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r nod llesiant ar gyfer Cymru sy'n wlad fwy cyfartal fel a roddwyd ar waith gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

22. Fel y nodir ym mharagraff 11, rwyf hefyd bellach mewn sefyllfa i argymell bod y Senedd yn cydsynio i'r darpariaethau yng nghymalau 127 – 129 (iLEAP) a gwmpesir yn yr LCM gwreiddiol.

23. Felly, rwy'n argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad.

**Jane Hutt AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**2 Gorffennaf 2025**